# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 9fed o Ionawr 2017 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr: Carys Morgan (Cadeirydd), Gerallt Davies, Wyn Jones, Barry Owen, Ruby Williams, Garym Roberts a Jocelyn Andrew.

**Hefyd yn bresennol:** Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Eiddwen Merritt a Wyn Evans.

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Rhagfyr a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Dywedodd y clerc fod problem wedi codi ynglyn a'r cerbyd ail-gylchu ond y byddwn yn cael gwybod yn y dyfodol agos pryd bydd yn ymweld a phentref Llwyncelyn.

Soniodd y Cynghorydd Wyn Jones ei fod wedi siarad a pherchennog garej Dryslwyn ynglyn â hysbysfwrdd i'r gymuned a phenderfynwyd brynu un a'i roi tu allan i'r siop.

**Materion Cynllunio:**

Dim.

**Gwasanaethau Technegol**

Darllenwyd lythyr o'r Gwasanaethau Amgylcheddol yn son ei bod yn gweithio mewn partneriaeth â 'European Recycling Platform' (ERP) i gynnig casgliadau o eitemau trydanol am ddim i holl drigolion Ceredigion yn ystod Mis Ianawr. Penderfynwyd arddangos posteri mewn mannau amlwg.

**Trefniadau'r Praesept 2018/2019**

Trafodwyd praesept am y flwyddyn 2018/19 a phenderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir Ceredigion am £6000.

**Ymgynghoriad Cyfraith Cynllunio:**

Darllenodd y Cadeirydd lythyr ynglyn a'r papur ymgynghori Comisiwn y Gyfraith a chynigwyd crynodeb o'r Papur Ymgynghori i'r pwyllgor.

**Dyddiadau Hyfforddiant**
Dangoswyd i'r pwyllgor restr o'r wahanol hyfforddiant fydd yn cael eu cynnal yn y canolbarth yn ystod y misoedd nesaf.
**Ystyried Cais Ariannol**
Derbyniwyd anfoneb oddiwrth Cyngor Sir Ceredigion o £8.87 am oleuadau stryd o 1.04.17 i 31.03.18.
**Cau Ffordd Dros Dro**
Hysbyswyd y bydd Rhif y Ffordd C1041 yn Nerwen Gam ar gau rhwng 08/01/18 a 12/01/18.
**Gwefan y Cyngor**
Trafodwyd y diweddaraf ynglyn a'r wefan a phenderfynwyd i'r clerc wneud ymholiadau pellach ac i alw cyfarfod brys pam y byddai ganddi fanylion a phrisiau i'w gynnig.
**Unrhyw Fater Arall:**
Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30.

Bydd y cyfarfod misol nesaf ar y 13eg o Chwefror.